S4C /

Uwch Beiriannydd Platfform Cwmwl

Pam ymuno ag S4C?

Yn S4C, rydym yn angerddol am greu amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu pawb, Cer Amdani.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â'n tîm wrth i ni barhau i feithrin diwylliant o waith sy'n rhoi pobl wrth galon y sefydliad ac ar adeg dyngedfennol yn hanes S4C wrth i ni weithredu ein strategaeth newydd, ***S4C - Mwy na Sianel Teledu***, ac wrth i ni weithredu strategaeth 2030. Rydym yn chwilio am unigolyn trefnus, dibynadwy, gweithgar a brwdfrydig sy'n byw yn ôl ein gwerthoedd craidd i ymuno â'n Tîm.

Trosolwg o'r Swydd

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle gwych i Uwch Beiriannydd Platfform chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu, cynnal a gwella'r seilwaith sy'n sail i wasanaethau digidol S4C. Gyda ffocws cryf ar AWS, byddwch yn gweithio ar draws meysydd dibynadwyedd platfformau, piblinellau defnyddio, gallu i arsylwi ar weithrediad systemau, diogelwch, integreiddio â phartneriaid a galluoedd platfformau cynhyrchu incwm. Byddwch yn cefnogi'r Arweinydd Pensaeriadol Datrysiadau i ddarparu seilwaith platfformau diogel, sefydlog, graddadwy a chost-effeithiol, sy'n galluogi S4C i wireddu ei huchelgeisiau Digidol yn Gyntaf.

Wrth i S4C barhau â'i thrawsnewid i fod yn gyhoeddwr cynnwys aml-blatfform, mae systemau digidol, llif gwaith a rheoli cynnwys wrth wraidd popeth a wnawn o fewn y Tîm Datblygu Cynnyrch.

Byddwch yn adrodd i'r Arweinydd Pensaeriadol Datrysiadau o fewn adran Gorfforaethol / Tîm Datblygu Cynnyrch S4C.

Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Fel Uwch Beiriannydd Platfform Cwmwl byddwch yn gyfrifol am:

AWS a seilwaith

- Dylunio, adeiladu a chynnal a chadw seilwaith AWS ar draws ystâd ddigidol S4C, gan gymhwyso arferion gorau mewn scalability, effeithlonrwydd cost, gwytnwch a diogelwch.
- Datblygu a chynnal seilwaith fel cod (Infrastructure-as-Code) i gefnogi'r gwaith o reoli platfformau mewn modd ailadroddadwy, gyda rheolaeth fersiynau a'r gallu i archwilio'r prosesau.
- Nodi a gweithredu gwelliannau i optimeiddio costau a chynllunio capasiti ar draws gwasanaethau ac offer AWS.
- Cyfrannu at y cynllun datblygu peirianneg cwmwl a llwyfannau, gan ddarparu mewnbwn technegol ar welliannau i'r seilwaith, lleihau dyled dechnegol a datblygu galluoedd newydd.
- Cadw'n gyfoes â datblygiadau AWS a gwerthuso gwasanaethau neu ddulliau newydd a allai fod o fudd i blatfform S4C

S4C /

Dibynadwyedd a gweithrediadau platfform

- Cefnogi dibynadwyedd, perfformiad ac argaeledd platfform ar draws gwasanaethau digidol S4C, gan gynnwys S4C Clic, gwefan S4C, a llwyfannau cysylltiedig.
- Cyfrannu at y gwaith o lywodraethu rhyddhau meddalwedd, pennu safonau defnyddio a rheoli piblinellau CI/CD, er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyflwyno'n ddiogel ac yn gyson ar draws amgylcheddau.
- Cynnal a gwella'r gallu i fonitro a chael trosolwg o'r holl blatfformau, gan gynnwys monitro, cofnodi logiau, anfon rhybuddion a defnyddio dangosfyrddau.
- Cefnogi'r gwaith o ymateb i ddigwyddiadau technegol ac adolygu digwyddiadau ar ôl iddynt ddigwydd, gan gyfrannu at reoli problemau a gweithredu mesurau unioni hirdymor.
- Cynnal safonau diogelwch y platfform, gan gynnwys adolygu rheolaethau mynediad, rheoli gwendidau diogelwch, gosod clytiau diogelwch a rheoli cyfrinachau systemau.
- Sicrhau bod gwasanaethau'r platfform yn cael eu dogfennu a'u cefnogi gan y tîm ehangach.
- Darparu cefnogaeth y tu allan i oriau gwaith ar gyfer materion platfform critigol yn ôl yr angen.

APIs, integreiddiadau a darganfyddadwyedd

- Cyfrannu at yr haen integreiddio dechnegol ar gyfer llwyfannau teledu cysylltiedig a ffrydio, gan gynnwys datblygu APIs, gwaith ar biblinellau a gofynion technegol partneriaid.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal piblinellau metadata sy'n sail i allu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys S4C ac i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach ar draws llwyfannau digidol a theledu cysylltiedig.
- Cydweithio â phartneriaid a chyflenwyr llwyfannau trydydd parti i gyflawni gwaith integreiddio, gan ddarparu mewnbwn technegol a chefnogi'r gwaith o baratoi dogfennaeth berthnasol.
- Cadw'n gyfoes â newidiadau i ofynion partneriaid llwyfannau a safonau technegol, a rhannu gwybodaeth am unrhyw effeithiau perthnasol â'r tîm.

Llwyfan cyfryngau a ffrydio

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a gwella llifoedd gwaith amgodio a thrawsgodio byw ar gyfer darparu cynnwys ar-alw (VOD) a chynnwys byw.
- Gweithio gyda fformatau pecynnu fideo a thechnolegau ffrydio cyfradd didau addasol, gan gynnwys HLS, MPEG-DASH, a CMAF.
- Cyfrannu at y gwaith o ddarparu cynnwys drwy rwydweithiau cyflenwi cynnwys (CDN), yn ogystal â datrys problemau chwarae'n ôl a ffrydio ar draws gwahanol lwyfannau.
- Cefnogi piblinellau prosesu cyfryngau a llifoedd gwaith asedau, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau AWS Elemental fel MediaLive, MediaConvert, a MediaPackage.
- Cefnogi digwyddiadau byw a gwasanaethau ffrydio darlledu-hanfodol, gan gynnwys monitro, sicrhau ansawdd, ac ymateb i ddigwyddiadau

S4C /

Gwaith platfform sy'n cynhyrchu incwm

- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r gallu i fewnosod hysbysebion ar ochr y gweinydd (Server-Side Ad Insertion – SSAI), yn ogystal â mentrau platfform eraill sy'n cynhyrchu incwm.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu'n dechnegol alluoedd hysbysebu, mesur a dadansoddi data sy'n galluogi cyfleoedd masnachol newydd.
- Helpu i nodi a dogfennu arbedion cost seilwaith a chyfleoedd incwm i gefnogi penderfyniadau adnoddau a chyllideb.

Rhannu gwybodaeth a chydweithio

- Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda'r tîm ehangach, gan gynnwys cefnogi a mentora aelodau tîm iau.
- Cydweithio'n agos â'r tîm Cyflenwi Cynnyrch Digidol i sicrhau bod galluoedd platfform yn bodloni gofynion cynnyrch.
- Cyfrannu at ddogfennaeth dechnegol, safonau, a phrosesau peirianneg ar draws y tîm Peirianneg Cwmwl a Llwyfannau.

Byddwch yn llwyddo yn y rôl hon os:

Rydych chi'n rhywun sydd â:

- Profiad ymarferol helaeth o ddefnyddio AWS a seilwaith cwmwl.
- Profiad o ddefnyddio seilwaith fel cod (Infrastructure-as-Code), CI/CD a rheoli cod ffynhonnell.
- Profiad o gefnogi llwyfannau cynhyrchu ac ymateb i ddigwyddiadau.
- Gwybodaeth am rwydweithio, DNS, TLS, CDNs, IAM a diogelwch cwmwl.
- Profiad o fonitro, logio, rhybuddio ac arsylwi.
- Profiad sgriptio neu ddatblygu gan ddefnyddio Python, JavaScript, TypeScript neu debyg.
- Y gallu i ymchwilio i broblemau'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am gyflawni gwaith technegol.
- Profiad gyda llifoedd gwaith prosesu cyfryngau byw neu VOD.
- Dealltwriaeth o amgodio, trawsgodio, pecynnu a ffrydio cyfradd didau addasol.
- Gwybodaeth am HLS, MPEG-DASH, CMAF a codecau fideo a sain cyffredin.
- Profiad o ddatrys problemau ffrydio, chwarae'n ôl neu ddarparu cynnwys drwy CDN.
- Profiad gyda gwasanaethau elfennol AWS fel MediaLive, MediaConvert, MediaPackage a MediaTailor, neu dechnolegau cyfatebol.
- Profiad o gefnogi digwyddiadau byw neu wasanaethau darlledu-hanfodol.
- Gwybodaeth am SSAI, technoleg hysbysebu a signalau SCTE.
- Profiad o weithio yn y sector darlledu, y cyfryngau neu deledu cysylltiedig (Connected TV).

Yn ystod eich tri mis cyntaf bydd disgwyl i chi:

- Datblygu dealltwriaeth ymarferol gadarn o seilwaith cwmwl a llwyfannau digidol S4C, gan gynnwys y prif wasanaethau AWS, y bensaernïaeth, llifoedd gwaith cyfryngau, integreiddiadau, monitro, rheolaethau diogelwch a phrosesau cymorth gweithredol.

- Datblygu digon o wybodaeth am y platfformau presennol i ymchwilio'n annibynnol i broblemau technegol cyffredin, gwneud newidiadau arferol i'r platfformau a chyfrannu'n effeithiol at ymateb i ddigwyddiadau a darparu cymorth gweithredol.
- Cymryd cyfrifoldeb technegol am brosiect cychwynnol y cytunwyd arno, y disgwylir iddo gynnwys y gwaith o fudo Newyddion, gan gynnal gwaith ymchwilio technegol, dogfennu'r bensaernïaeth bresennol a'r bensaernïaeth arfaethedig, nodi risgiau a dibyniaethau, llunio cynllun cyflawni a dechrau gweithredu'r cynllun.
- Adolygu'r ddogfennaeth bresennol ar y platfformau, diagramau pensaernïaeth a llawlyfrau gweithredol, gan ddiweddaru neu greu dogfennaeth lle nodir bylchau, er mwyn gwella'r gallu i gefnogi a chynnal y platfformau.
- Meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â chydweithwyr a phartneriaid a chyflenwyr technoleg allanol perthnasol.
- Nodi ac argymell gwelliannau cychwynnol ar draws meysydd fel dibynadwyedd platfformau, gallu i arsylwi ar weithrediad systemau, diogelwch, seilwaith fel cod, optimeiddio costau a lleihau dyled dechnegol, gan gytuno ar flaenoriaethau gyda'r Arweinydd Pensaeriadol Datrysiadau.

Byddwch hefyd:

- Byddwch yn ymwybodol o strategaeth S4C a chymryd cyfrifoldeb personol am ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad.
- Cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant y sefydliad a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithiwch â'ch rheolwr llinell a byddwch yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol a thraws-sefydliadol sy'n datblygu gwasanaethau rhagorol i'n cynulleidfaoedd.

Beth fyddwch chi'n ei gael?

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Mae S4C wedi ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu cynhwysfawr i uwchsgilio a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus lle bo hynny'n briodol.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector creadigol a'r cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolygon rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gweithwyr yn cael y cyfle unigryw i gyfrannu at hyrwyddo a chadw'r iaith a'r diwylliant Cymraeg drwy eu gwaith.
- Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu'n raddol hyd at 32 diwrnod mewn 9 mlynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â ni at Pobl@s4c.cymru

S4C /

Manyleb y Person

Nodwedd	Hanfodol	Dymunol
Cymraeg		Nid oes angen sgiliau Cymraeg ar gyfer y rôl hon ond gallai fod yn fanteisiol.
Cymwysterau	Cymhwyster technegol perthnasol, prentisiaeth, neu brofiad proffesiynol cyfatebol mewn seilwaith cwmwl, peirianneg meddalwedd, peirianneg systemau neu ddisgyblaeth dechnegol gysylltiedig.	Ardystiad AWS fel Pensaer Datrysiadau Ardystiedig AWS, Gweinyddwr SysOps neu Beiriannydd DevOps.
Sgiliau a Phrofiad	Profiad ymarferol cryf gydag AWS a seilwaith cwmwl Profiad gyda seilwaith fel cod, CI / CD a rheoli ffynhonnell. Profiad o gefnogi llwyfannau cynhyrchu ac ymateb i ddigwyddiadau. Gwybodaeth am rwydweithio, DNS, TLS, CDNs, IAM a diogelwch cwmwl. Profiad o fonitro, logio, rhybuddio ac arsylwi. Profiad sgriptio neu ddatblygu gan ddefnyddio Python, JavaScript, TypeScript neu debyg. Y gallu i ymchwilio i faterion yn annibynnol a chymryd perchnogaeth o ddarparu technegol.	Profiad gyda llifoedd gwaith prosesu cyfryngau byw neu VOD. Dealltwriaeth o amgodio, trawsgodio, pecynnu a ffrydio cyfradd didau addasol. Gwybodaeth am HLS, MPEG-DASH, CMAF a codecau fideo a sain cyffredin. Profiad datrys problemau ffrydio, chwarae neu gyflenwi CDN. Profiad gyda gwasanaethau elfennol AWS fel MediaLive, MediaConvert, MediaPackage a MediaTailor, neu dechnolegau cyfatebol. Profiad o gefnogi digwyddiadau byw neu wasanaethau darlledu-hanfodol. Gwybodaeth am SSAI, technoleg hysbysebu a signalau SCTE.

S4C /

		Profiad o fewn darlledu, cyfryngau neu deledu cysylltiedig.
Nodweddion personol	Dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i strategaeth a pholisïau Amrywiaeth a Chynhwysiant S4C. Lefel uchel o uniondeb personol, a ddangosir trwy ymddygiad proffesiynol a dibynadwy. Y gallu i arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau S4C yn gyson yn y gweithle. Parodrwydd i weithio'n hyblyg, gan ymateb i anghenion y rôl a'r sefydliad.	

Manylion eraill

Lleoliad: Caerdydd / Caerfyrddin / Caernarfon (o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa)

Cyflog: £62,500.00 y flwyddyn

Cytundeb: Parhaol

Oriau gwaith: 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio y tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

Cyfnod prawf: 3 mis

Gwyliau: Yn ogystal â'r gŵyl banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi'n rhan-amser, byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r absenoldeb.

Pensiwn: Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

Teithio: Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r swydd, fel arfer yn y Deyrnas Unedig

S4C /

Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn **5.00 ar ddydd Gwener 27 Tachwedd 2026** yn uniongyrchol i Pobl@s4c.cymru

Cadwn y cyfle i gau'r hysbyseb swydd hon yn gynnar os derbynnir nifer ddigonol o geisiadau. Argymhellir gwneud cais yn gynnar.

Dyddiad Cyfweliad: I'w gadarnhau ond mae'n debygol y bydd yn cael ei gynnal ar ôl wythnos 23ain o Dachwedd 2026.

Nid ydym yn derbyn CVs.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Defnyddio AI

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

Sgiliau iaith Gymraeg

Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymreig ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg yn y gweithle, ac rydym yn chwilio am rywun sy'n agored i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r iaith fel rhan o'u taith gyda ni. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.